Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Bannau
# Penlan
# Aberhonddu
# Powys
# LD3 9SR

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Bannau

Lleolir Ysgol y Bannau ar gyrion tref Aberhonddu ym Mhowys. Mae'n ysgol benodedig Gymraeg sydd yn gwasanaethu'r ardal eang wledig yn ogystal â'r dref.

Ar hyn o bryd, mae 114 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Caiff disgyblion eu derbyn i'r ysgol ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Addysgir disgyblion Ysgol y Bannau mewn pedwar dosbarth cymysg eu hoedran.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 6% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol ia na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae llawer o'r disgyblion yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod 17% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a chyfrwng yr addysgu a'r dysgu.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod 2011 ac mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers 2007. Nid oedd y pennaeth yn yr ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn gyfrifol am arwain a rheoli'r ysgol ers mis Hydref 2017

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos Cymreig yn gryfder ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig wedi ei gwreiddio'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n hybu brwdfrydedd ymysg disgyblion. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith ac yn datblygu medrau'r disgyblion yn dda.

Dros gyfnod, nid yw arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol wedi bod yn ddigon effeithiol. Nid yw arweinwyr wedi gweithredu'n ddigon strategol i sicrhau bod prosesau'r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn. Mae'r pennaeth dros dro, mewn cyfnod byr, wedi dechrau cryfhau prosesau'r ysgol. Bellach, mae cydweithio effeithio rhwng holl staff yr ysgol, sydd wedi arwain at greu ethos hapus a chynhaliol ar gyfer y disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth a sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu'n strategol

A2 Cryfhau prosesau hunanarfarnu er mwyn adnabod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant, a'u monitro'n fwy effeithiol

A3 Gwella prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

A4 Codi safonau ysgrifennu Cymraeg

A5 Gwella ansawdd yr addysgu i ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion

A6 Cryfhau rôl y llywodraethwyr i weithio'n fwy strategol a chyflawni eu dyletswyddau statudol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn addas ar draws ystod o feysydd dysgu. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith, gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig, er enghraifft wrth siarad am stori Gelert fel rhan o'u gwaith thema. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau trafod llyfrau ac yn gwneud cynnydd priodol, gan ddarllen yn ystyrlon a chyda dealltwriaeth berthnasol o'r testun. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod cynnwys y stori'n fanwl, gan gyfeirio at rannau penodol o'r llyfr wrth drafod eu hoff gymeriad.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn sgwrsio am eu gwaith yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn ymateb i gwestiynau athrawon yn frwdfrydig ac yn esbonio eu hatebion yn glir. Er enghraifft, maent yn egluro pa strategaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo ffracsiynau mewn gwaith mathemateg, ac yn disgrifio swyddogaeth y system dreulio mewn gwers gwyddoniaeth. Mae llawer yn darllen yn briodol yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o'r gynulleidfa. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth mwyafrif y disgyblion o'r hyn a ddarllenir yn wan. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw uwch fedrau darllen mwyafrif y disgyblion wedi datblygu'n llawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol, gan ysgrifennu brawddegau clir a sillafu geirfa sylfaenol yn gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad o'u hymweliad â chastell Dinefwr. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n annibynnol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at Siôn Corn i'w ddiolch am anrhegion Nadolig, ond nid yw hyn wedi datblygu'n llawn ar draws y cyfnod. Mae gor-ddibyniaeth ar fframiau ysgrifennu yn cyfyngu ar allu mwyafrif y disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu mewn ystod briodol o ffurfiau'n hyderus yn y ddwy iaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn creu darnau dychmygus, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at archfarchnad leol yn gofyn am nawdd ar gyfer clwb brecwast yr ysgol ac wrth ysgrifennu portread hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn atalnodi a pharagraffu eu gwaith yn gyson dda.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol yn yr ardaloedd dysgu. Maent yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werth lle a mesur. Maent yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft wrth gyfrifo cost bwydydd ar gyfer parti'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd i safon dda mewn amrywiaeth o weithgareddau ar

draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio graddfa ar fap i ddod o hyd i barc antur agosaf at Aberhonddu.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus at wahanol ddibenion. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio offer rheoli yn hyderus wrth greu llwybr i'r castell. Maent yn datblygu eu medrau yn dda mewn gweithgareddau trin data, er enghraifft wrth greu graffiau i gofnodi penblwyddi plant y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn prosesu geiriau yn llwyddiannus, yn paratoi cyflwyniadau am yr Ail Ryfel Byd ac yn creu darluniau a phosteri pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn creu amrywiaeth o graffiau'n hyderus, er enghraifft i ddangos canlyniadau arbrofion gwyddonol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gefnogol a chynhwysol. Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar a chynhaliol sy'n bodoli ynddi. Mae ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi, gwasanaethau ac ar y buarth yn dda. Maent yn gwrtais ac yn trin eu cyfoedion, oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.

Maent yn ofalgar o'i gilydd. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae'r 'Gwenyn Gofal' yn gofalu am y disgyblion ieuengaf yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydyn nhw'n gofidio am un rhywbeth.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau penodol. Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn parchu barn a syniadau eraill. Mae gan lawer o ddisgyblon ddealltwriaeth addas o sut maent yn cyflawni a beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Fodd bynnag, cyfyng yw rôl y disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol o fewn gwaith y dosbarth. Mae'r 'criw mentrus' yn chwarae rôl weithgar yng ngwaith yr ysgol, er enghraifft wrth gynllunio ffedogau gyda arwyddlun Cymraeg arnynt. Mae hyn yn atgyfnerthu eu medrau entrepreneuriaeth yn dda. Mae'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r 'Criw Cymraeg' yn chwarae rhan addas ym mywyd a gwaith yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r 'Criw Cymraeg' yn hybu'r iaith drwy chwarae gemau buarth.

Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o degwch a goddefgarwch, ac maent yn ymwybodol o anghenion eraill. Er enghraifft, maent yn codi arian at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o eraill sy'n llai ffodus. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd, er enghraifft drwy gystadlu mewn eisteddfodau a chwaraeon lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn datblygu eu rôl o fewn eu cymuned ac yn ehangach yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd bositif tuag at fyw a bwyta'n iach. Maent yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach ac ymarfer corff rheolaidd. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus mewn amrywiaeth addas o weithgareddau corfforol, er enghraifft sesiynau rygbi a gwersi hoci.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Mae ethos Cymreig yn gryfder ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig wedi ei gwreiddio'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r disgyblion yn astudio cestyll Cymru fel rhan o thema'r dosbarth, ac wrth ddadansoddi gwaith yr awdur a'r bardd T Llew Jones. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus trwy ymweliadau niferus o fewn eu milltir sgwâr ac yn ehangach, er enghraifft trwy ymweld â'r Ardd Fotaneg. Trwy astudio chwedlau gwerin a chystadlu mewn eisteddfodau, mae ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes a diwylliant Cymru yn gadarn. Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn dangos balchder yn eu cymuned a'u hiaith.

Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau a phrofiadau dysgu diddorol ar gyfer y disgyblion sy'n cymell brwdfrydedd ymysg y disgyblion. Mae ymweliadau addysgol niferus yn cyfoethogi'r dysgu'n effeithiol, er enghraifft ymweliad â chastell Dinefwr fel rhan o waith thematig, Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith ac yn datblygu medrau'r disgyblion yn dda. Mae ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn cael eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, er enghraifft wrth i ddisgyblion baratoi ar gyfer parti Barti a Bel yn y gegin fwd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio profiadau diddorol ac ymarferol i'r disgyblion. Maent yn cynllunio'n addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes trosolwg clir sy'n sicrhau cynnydd a dilyniant yn natblygiad medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Er bod cynlluniau tymor byr addas gan yr ysgol, nid yw arweinwyr yn monitro cynlluniau yn ddigon bwriadus i sicrhau bod gweithgareddau yn ymateb yn llawn i anghenion pob disgybl. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd, er enghraifft mewn gwaith ysgrifenedig.

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae'r staff yn trin y disgyblion yn deg a chytbwys, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus yn eu dosbarthiadau. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r cynorthwywyr ar lawr y dosbarth i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Maent yn modelu iaith dda, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar y disgyblion. Lle nad yw'r addysgu mor effeithiol mewn ychydig o achosion, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio disgyblion yn llawn. Mae tueddiad ar adegau i athrawon or-arwain y dysgu. Mae hyn yn cyfyngu gallu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae athrawon yn rhoi adborth addas i'r disgyblion am eu gwaith sydd yn ddefnyddiol ac yn arwain y disgyblion i'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar sylwadau'r athrawon a gwella eu gwaith. Mae prosesau asesu pwrpasol ar waith ond nid yw'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesu yn ddigon bwriadus i adnabod a chynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu perthynas waith dda gyda rhieni. Mae cylchlythyron sy'n cael eu rhannu'n rheolaidd yn darparu gwybodaeth

ddefnyddiol i rieni. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad y rhieni yn addysg eu plant. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol mewn cyfarfodydd tymhorol ac mewn sesiynau cwricwlaidd i rieni.

Nid oes gan yr ysgol system asesu ac olrhain cynnydd disgyblion ddigon effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio ystod gyfyng o asesiadau ar gyfer adnabod cryfderau disgyblion a meysydd i'w gwella. Mae rhaglenni ymyrraeth addas ar waith i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion, ond nid yw'r rhain wedi bod yn weithredol dros gyfnod. Nid yw'r prosesau hyn yn ddigon miniog er mwyn sicrhau ymyrraeth bwrpasol ac nid yw'n arwain at welliant parhaus. Er hyn, mae athrawon yn defnyddio ystod addas o asesiadau a phrofion mewnol a chenedlaethol i adnabod unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth. Caiff targedau o fewn cynlluniau addysgol unigol eu llunio ar y cyd â disgyblion ac athrawon. Adolygir cynnydd yn erbyn y targedau gyda'r rhieni yn rheolaidd

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu lles a ffitrwydd y disgyblion trwy gydweithio â grwpiau dawns ac asiantaethau allanol. Mae ymweliadau rheolaidd yr heddlu i drafod materion sylweddau ac e-ddiogelwch ynghyd â mewn gwersi TGCh, yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o fod yn ddiogel ar y we. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dinasyddiaeth fyd eang yn cael ei datblygu'n effeithiol trwy gynlluniau gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy astudio bywyd Rosa Parks. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn llwyddiannus.

Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn amlwg ym mywyd yr ysgol. Caiff agweddau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd eu datblygu'n fwriadus trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol. Caiff agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion eu hyrwyddo'n llwyddiannus trwy astudio credoau'r byd a chyfnodau o gyd-addoli rheolaidd

Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau mentergarwch yn dda, trwy gynllunio a gweithredu 'Siop Ffrwythau'r Bannau' a gwerthu ffedogau mewn sioe ffasiynau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Dros gyfnod, nid yw arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol wedi bod yn ddigon effeithiol. Nid yw arweinwyr wedi gweithredu'n ddigon strategol i sicrhau bod prosesau'r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon cadarn. Mae'r pennaeth dros dro, mewn cyfnod byr, wedi dechrau cryfhau prosesau'r ysgol. Bellach, mae cydweithio effeithiol yn bodoli rhwng holl staff yr ysgol, sydd wedi arwain at greu ethos hapus a chynhaliol ar gyfer y disgyblion. Mae'r staff yn gydwybodol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn briodol. Mae'r pennaeth dros dro yn cydweithio'n effeithiol gyda'r llywodraethwyr a rhieni i osod gwelliannau ar waith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae arweinyddiaeth tymor hir yr ysgol yn ansicr.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth dros dro wedi arwain yr ysgol drwy gyfnod o ansefydlogrwydd ac ailstrwythuro dosbarthiadau. Mae hyn wedi cael effaith

negyddol ar forâl y staff, y ddarpariaeth a safonau, ynghyd â gallu'r ysgol i symud yn ei blaen. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth briodol o ddata perfformiad yr ysgol, ond mae hyn yn anghyson. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn targedu unigolion nac yn herio grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigon miniog i sicrhau gwelliant.

Bellach, mae gan yr ysgol systemau addas ar gyfer rheoli perfformiad athrawon, gydag amcanion sy'n cysylltu'n addas â blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw hyn wedi bod yn gyson. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi cyflawni gofynion statudol yn llawn. Dros gyfnod, nid yw'r ysgol wedi ymateb i anghenion proffesiynol staff. Mae effaith i'w gweld ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion.

Erbyn hyn, dan arweiniad y pennaeth dros dro a staff yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu priodol sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth o'r addysgu, y dysgu a'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, nid yw arweinwyr wedi monitro agweddau ar waith yr ysgol yn ddigon bwriadus na gweithredu ar ganfyddiadau monitro prin.

Mae'r ysgol yn ymateb yn bwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio a pharatoi i wireddu'r fframwaith cymhwysedd digidol. Dros gyfnod, nid yw staff wedi derbyn hyfforddiant i gyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol nac i'w datblygu'n broffesiynol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r pennaeth dros dro, i'r staff ac i waith yr ysgol. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac, erbyn hyn, yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Yn ddiweddar, mae ganddynt well dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol a sut mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg eraill. Maent wedi dechrau ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau hunanarfarnu, ond nid yw hyn wedi datblygu'n llawn. Mae rôl y llywodraethwyr i herio arweinyddiaeth yr ysgol yn gyfyngedig.

Dan arweinyddiaeth y pennaeth dros dro, mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli'r gyllideb yn fwy gofalus ar ôl cyfnod anodd o ailstrwythuro dosbarthiadau a chyfrifoldebau staff. Mae arweinwyr yn monitro cyllideb y grant datblygu disgyblion yn briodol.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd da. Mae'r ystafelloedd yn darparu amgylchedd dysgu sydd yn ddeniadol. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd agored ar gyfer dysgu a chwarae.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2018